**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/CS/2120/15

21 Gorffennaf 2015

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Alun,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Mehefin sy'n cyfleu canlyniadau'r ymchwiliad gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i dlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni.

Rwyf yn croesawu ymateb y Pwyllgor, ac mi fyddaf yn gadael ichi wybod am unrhyw gynlluniau i adfywio'r Strategaeth Tlodi Tanwydd, canlyniad yr ymgynghoriad ar ein Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni newydd ac ar ddatblygiad cynllun *Cartrefi Clud Llywodraeth Cymru* a *Chymru Effeithlon*.

Mi fyddaf hefyd yn ystyried awgrym y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru drefnu fforwm blynyddol ar fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni yng Nghymru. Mewn ymateb i ganlyniadau'r Pwyllgor ar ddata a dyled tanwydd, rwyf yn falch o ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

**Data**

Mae'r prosiect i nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyflwr tai, ac i ddatblygu achos busnes ar y buddsoddiad mewn tlodi tanwydd a data cyflwr tai yn y tymor canolig a hir yn parhau. Rwyf yn disgwyl achos cyfiawnhau busnes gael ei gwblhau, ac i opsiwn newydd gael ei ddewis i ddarparu data newydd yn yr Hydref. Yn ogystal â'r gwaith sydd ar droed i sicrhau data tymor hir, rwyf wedi cytuno'n ddiweddar i ariannu prosiect ymchwil i fodelu'r ffynonellau sydd ar gael eisoes er mwyn diweddaru amcangyfrifon lefelau tlodi tanwydd ac effeithlonrwydd ynni tai yn y tymor byr. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd a rwyf yn hapus i diweddaru'r Pwyllgor fel mae'r gwaith yn mynd ymlaen.

**Dyled Tanwydd**

Oherwydd pwysigrwydd sicrhau ein bod yn sbarduno arian Rhwymedigaeth Cwmnïoedd Ynni (RCY) i mewn i Gymru, roedd y cyfarfodydd a gefais yn ddiweddar â'r cwmnïoedd ynni mawr yn canolbwyntio'n bennaf ar RCY. Mi fyddaf yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cwmnïoedd ynni i'w holi beth y gallant ei wneud yn ychwanegol i gefnogi cwsmeriaid sydd mewn dyled, pa gamau y maent yn ei gymryd i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn cael eu symud i fesuryddion talu ymlaen llaw, oni bai mai dyna'r opsiwn mwyaf addas i'r cwsmer, a pha gynlluniau sydd ganddynt ar waith ar gyfer ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar yng Nghymru.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources